# NOSC 2026 Rhif 64

# ADDYSG

# Cyfarwyddydau Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid (Darparu Gwaith Ieuenctid) (Cymru) 2026

*Gwnaed* *19 Mawrth 2026*

*Yn dod i rym* *1 Ebrill 2026*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Cyfarwyddydau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 123(1), (4)(b) ac (c), a (5)(c) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

### Enwi a dod i rym

**1.** Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid (Darparu Gwaith Ieuenctid) (Cymru) 2026 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2026.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Cyfarwyddydau hyn—

ystyr "anghenion blaenoriaethol" ("*prioritised needs*") yw unrhyw rai o'r anghenion a asesir o dan baragraff 4(a) y mae awdurdod lleol yn penderfynu y dylid eu blaenoriaethu yn rhan o'i weithrediad o waith ieuenctid, a'i reolaeth strategol ohono;

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

ystyr "cyfnod adrodd" ("*reporting period*") yw—

(a) y cyfnod sy'n dechrau â 1 Ebrill 2027 ac sy'n dod i ben â 31 Mawrth 2032, a

(b) pob cyfnod olynol o 5 mlynedd;

ystyr "gwaith ieuenctid" ("*youth work*") yw gwasanaethau a ddarperir o fewn gwasanaethau cymorth ieuenctid gan ddefnyddio dull addysgol neilltuol sy'n seiliedig ar ymgysylltiad gwirfoddol gan bobl ifanc—

(a) o dan arweiniad gweithiwr ieuenctid neu weithiwr cymorth ieuenctid sydd wedi ei gyflogi neu wedi ei gymryd ymlaen fel arall (gan gynnwys ar sail wirfoddol) gan awdurdod lleol, partner neu sefydliad gwirfoddol, a

(b) sy'n cael ei gyflenwi gan un neu ragor o'r canlynol—

(i) awdurdod lleol,

(ii) partner, neu

(**1**) 2000 p. 21.

(**2**) Mae'r pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 123 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21) bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(iii) sefydliad gwirfoddol;

ystyr “gwasanaethau cymorth ieuenctid” (“*youth support services*”) yw gwasanaethau sy’n annog, yn galluogi neu’n cynorthwyo pobl ifanc (yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol)—

(a) i gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg neu hyfforddiant,

(b) i fanteisio ar gyfleoedd am gyflogaeth, neu

(c) i gymryd rhan yn effeithiol ac yn gyfrifol ym mywyd eu cymunedau;

ystyr “gweithiwr cymorth ieuenctid” (“*youth support worker*”) yw person sy’n dod o fewn y categori gweithiwr cymorth ieuenctid yn Nhabl 1 ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Addysg (Cymru) 2014(**1**);

ystyr “gweithiwr ieuenctid” (“*youth worker*”) yw person sy’n dod o fewn y categori gweithiwr ieuenctid yn Nhabl 1 ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Addysg (Cymru) 2014;

ystyr “partner” (“*partner*”) yw person neu gorff, heblaw sefydliad gwirfoddol, sy’n darparu gwasanaethau i bobl ifanc yn ardal yr awdurdod lleol;

ystyr “person ifanc” (“*young person*”) yw person sydd wedi cyrraedd 11 oed, ond nid 26 oed;

ystyr “sefydliad gwirfoddol” (“*voluntary organisation*”) yw corff (heblaw corff sy’n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus) y mae ei weithgareddau’n cael eu cyflawni ac eithrio er elw ac y mae’r gweithgareddau hynny o fudd yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol i’r cyfan neu unrhyw ran o ardal yr awdurdod lleol.

(2) Pan fo’r Cyfarwyddydau hyn yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i gyhoeddi dogfen, rhaid iddi gael ei chyhoeddi—

(a) ar wefan yr awdurdod lleol, a

(b) mewn unrhyw fodd arall y mae’r awdurdod lleol yn ystyried ei fod yn briodol.

**Darparu gwasanaethau cymorth ieuenctid a gwaith ieuenctid**

**3.** Rhaid i awdurdod lleol—

(a) darparu gwasanaethau cymorth ieuenctid, neu sicrhau’r ddarpariaeth ohonynt, yn ei ardal, a

(b) cymryd rhan yn y ddarpariaeth o’r gwasanaethau hynny.

**4.** At ddibenion paragraff 3, rhaid i’r ddarpariaeth o wasanaethau cymorth ieuenctid gynnwys gweithredu gwaith ieuenctid a’i reoli’n strategol mewn modd sydd—

(a) yn asesu anghenion pobl ifanc yn ardal yr awdurdod lleol,

(b) yn canfod maint a natur yr adnoddau sydd eu hangen i ddiwallu’r anghenion blaenoriaethol, ac

(c) yn sicrhau, yn darparu ac yn cydlynu’r gwaith o gyflenwi’r adnoddau sydd eu hangen er mwyn ymateb i’r anghenion blaenoriaethol.

**Y safonau cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid a’r cynnig gwaith ieuenctid**

**5.**—(1) Ystyr y safonau cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid yw gwaith ieuenctid—

(a) a ffurfir drwy ymgysylltu â phobl ifanc;

(b) sydd â’r nod o gyflwyno, diogelu a chryfhau gweithgareddau a gyflenwir yn Gymraeg a Saesneg, ac sy’n seiliedig ar yr hyn sydd ei angen neu ei eisiau ar bobl ifanc yn eu hardal;

(c) sy’n darparu cyfleoedd i bobl ifanc ddysgu a datblygu mewn gwahanol leoliadau addysgol a chymunedol, gan gynnwys lleoliadau digidol;

(d) sy’n hwyluso cyfleoedd cyffredinol a chyfleoedd sydd wedi eu targedu fel y gall pobl ifanc gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau er mwyn gwella eu llesiant corfforol, emosiynol a meddyliol;

---

(**1**) 2014 dccc 5. Diwygiwyd Atodlen 2 gan O.S. 2016/1183.

(e) y mae'n hawdd i bobl ifanc ei gyrchu;

(f) a gyflenwir mewn ffordd sy'n cefnogi canlyniadau gwell ar gyfer pobl ifanc drwy gydweithio rhwng awdurdodau lleol, partneriaid a sefydliadau gwirfoddol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

(2) At ddibenion y paragraff hwn, ystyr y cynnig gwaith ieuenctid yw'r ddarpariaeth o waith ieuenctid a bennir gan awdurdod lleol i gyrraedd y safonau cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid ar gyfer pobl ifanc yn ei ardal.

(3) Rhaid i awdurdod lleol sicrhau bod ei gynnig gwaith ieuenctid yn darparu gwaith ieuenctid sy'n cydymffurfio â'r safonau cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid.

**Dyletswydd i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**

**6.**—(1) Rhaid i awdurdod lleol sy'n arfer swyddogaethau o dan y Cyfarwyddydau hyn mewn perthynas â pherson ifanc, roi sylw dyladwy i Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a fabwysiadwyd ac a agorwyd i'w lofnodi, ei gadarnhau a'i gytuno gan benderfyniad y Cynulliad Cyffredinol 44/25 dyddiedig 20 Tachwedd 1989 ("y Confensiwn").

(2) At ddibenion is-baragraff (1), mae Rhan 1 o'r Confensiwn i'w thrin fel pe bai'n cael effaith—

(a) fel y'i nodir am y tro yn Rhan 1 o'r Atodlen i Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 (mccc 2), ond

(b) yn ddarostyngedig i unrhyw ddatganiad neu neilltuad fel y'i nodir am y tro yn Rhan 3 o'r Atodlen honno.

(3) Nid yw is-baragraff (1) yn ei gwneud yn ofynnol rhoi ystyriaeth benodol i'r Confensiwn ar bob achlysur pan arferir swyddogaeth.

**Gweithio mewn partneriaeth**

**7.** Caiff awdurdod lleol weithio—

(a) mewn partneriaeth â phartneriaid neu sefydliadau gwirfoddol yn y ddarpariaeth o waith ieuenctid ar gyfer pobl ifanc yn ei ardal;

(b) mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill, partneriaid neu sefydliadau gwirfoddol yn y ddarpariaeth o waith ieuenctid ar draws ffiniau awdurdodau lleol.

**Swyddog arweiniol**

**8.** Rhaid i awdurdod lleol benodi swyddog arweiniol dynodedig sydd mewn swydd ar lefel addas ac a chanddo brofiad addas i gydlynu'r gwaith o ymgysylltu â phobl ifanc yn ei ardal, awdurdodau lleol eraill, partneriaid a sefydliadau gwirfoddol yn y ddarpariaeth o waith ieuenctid.

**Cynllun strategol gwaith ieuenctid**

**9.**—(1) Rhaid i awdurdod lleol lunio cynllun strategol gwaith ieuenctid ("cynllun strategol") ar gyfer pob cyfnod adrodd, sydd wedi ei ddatblygu ar ôl i'r awdurdod lleol gydymffurfio â'i ddyletswydd statudol i ymgynghori o dan adran 125 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000.

(2) Rhaid i'r cynllun strategol gynnwys yr amcanion ar gyfer gwaith ieuenctid dros gyfnod y cynllun hwnnw, sy'n cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain—

(a) nodi sut y bydd yr awdurdod lleol, gan weithio gyda phartneriaid a sefydliadau gwirfoddol pan fo'n briodol, yn diwallu anghenion blaenoriaethol pobl ifanc yn ardal yr awdurdod lleol;

(b) nodi a oes unrhyw anghydraddoldebau yn y ddarpariaeth o waith ieuenctid ac, os felly, sut y byddant yn cael sylw;

(c) asesu pa ddarpariaeth a wneir ar gyfer galwadau ar waith ieuenctid yn y dyfodol yn ystod cyfnod y cynllun.

(3) Rhaid i'r cynllun strategol nodi'r canlynol—

(a) y sylfaen dystiolaeth ar gyfer gosod yr amcanion;

(b) sut y bydd yr awdurdod lleol yn gweithio gyda phartneriaid a sefydliadau gwirfoddol i gynllunio a chyflenwi darpariaeth o waith ieuenctid o fewn ei ardal;

(c) sut y bydd yr awdurdod lleol yn gweithio gydag awdurdodau lleol eraill, partneriaid a sefydliadau gwirfoddol i gynllunio a chyflenwi darpariaeth o waith ieuenctid ar draws ffiniau awdurdodau lleol i bobl ifanc.

(4) Rhaid i'r cynllun strategol gynnwys—

(a) crynodeb o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd at ddibenion is-baragraff (1), a

(b) crynodeb o'r ymatebion (os oes rhai) a gafwyd i'r ymgynghoriad hwnnw.

**10.**—(1) Rhaid i awdurdod lleol gyflwyno'r cynllun strategol i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo ganddynt.

(2) Rhaid i awdurdod lleol—

(a) cyflwyno ei gynllun strategol cyntaf i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo heb fod yn hwyrach na 30 Medi 2026, a

(b) cyflwyno pob cynllun strategol dilynol i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo heb fod yn hwyrach na 30 Medi yn y flwyddyn cyn y bydd y cynllun yn cymryd effaith.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru—

(a) cymeradwyo'r cynllun strategol fel y'i cyflwynwyd,

(b) ei gwneud yn ofynnol i'r cynllun strategol gael ei addasu,

(c) cymeradwyo'r cynllun strategol gydag addasiadau, neu

(d) gwrthod y cynllun strategol.

(4) Os yw Gweinidogion Cymru yn gwrthod y cynllun strategol neu'n ei gwneud yn ofynnol ei addasu, rhaid i'r awdurdod lleol ddiwygio ac ailgyflwyno ei gynllun strategol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan is-baragraff (1).

(5) Rhaid i awdurdod lleol anfon copi o'i gynllun strategol a gymeradwywyd—

(a) i bwyllgor trosolwg a chraffu'r awdurdod lleol hwnnw;

(b) i unrhyw gorff arall fel y cyfarwyddir gan Weinidogion Cymru.

(6) Rhaid i awdurdod lleol gyhoeddi ei gynllun strategol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan y paragraff hwn.

**11.**—(1) Caiff awdurdod lleol ddiwygio ei gynllun strategol yn ystod y cyfnod adrodd mewn ymateb i angen a aseswyd.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod lleol i ddiwygio ei gynllun strategol ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod adrodd.

(3) Rhaid i awdurdod lleol gyflwyno cynllun strategol diwygiedig a luniwyd o dan is-baragraff (1) neu (2) i Weinidogion Cymru cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol i'w gymeradwyo ganddynt.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru—

(a) cymeradwyo'r cynllun strategol diwygiedig fel y'i cyflwynwyd,

(b) ei gwneud yn ofynnol i'r cynllun strategol diwygiedig gael ei addasu,

(c) cymeradwyo'r cynllun strategol diwygiedig gydag addasiadau, neu

(d) gwrthod y cynllun strategol diwygiedig.

(5) Os yw Gweinidogion Cymru yn gwrthod cynllun strategol diwygiedig neu'n ei gwneud yn ofynnol ei addasu, rhaid i'r awdurdod lleol ddiwygio'r cynllun strategol hwnnw a'i ailgyflwyno, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan is-baragraff (3).

(6) Rhaid i awdurdod lleol anfon copi o'i gynllun strategol diwygiedig a gymeradwywyd—

(a) i bwyllgor trosolwg a chraffu'r awdurdod lleol hwnnw;

(b) i unrhyw gorff arall fel y cyfarwyddir gan Weinidogion Cymru.

(7) Rhaid cyhoeddi cynllun strategol diwygiedig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i Weinidogion Cymru gymeradwyo'r cynllun diwygiedig.

**12.**—(1) Rhaid i awdurdod lleol adolygu'n barhaus i ba raddau y mae'n cyflawni'r amcanion a nodir yn ei gynllun strategol.

(2) Rhaid i awdurdod lleol, o bryd i'w gilydd, ac o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn ariannol o'r cyfnod adrodd, ymgynghori â phobl ifanc yn ei ardal ynghylch i ba raddau y mae'n cyflawni'r amcanion a nodir yn ei gynllun strategol ac yn diwallu anghenion y bobl ifanc hynny.

(3) Rhaid i awdurdod lleol, ar ôl cynnal yr adolygiad a nodir yn is-baragraff (1) a'r ymgynghoriad a nodir yn is-baragraff (2), gyhoeddi, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ym mhob blwyddyn ariannol ar ôl cyhoeddi cynllun strategol, adroddiad o'r cynnydd y mae wedi ei wneud o ran cyflawni ei amcanion a nodir yn y cynllun strategol hwnnw.

**Canllawiau**

**13.**—(1) Pan fydd yn arfer ei swyddogaethau o dan y Cyfarwyddydau hyn, rhaid i awdurdod lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

(2) Pan fydd yn gwneud trefniadau â phersonau eraill wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Cyfarwyddydau hyn, rhaid i awdurdod lleol ei gwneud yn ofynnol i'r personau hynny roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

**Adolygu**

**14.**—(1) Cyn 1 Hydref 2028, rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) cynnal adolygiad o'r Cyfarwyddydau hyn,

(b) nodi casgliadau'r adolygiad mewn adroddiad, ac

(c) cyhoeddi'r adroddiad.

(2) Rhaid i'r adroddiad yn benodol—

(a) nodi'r amcanion y bwriedir iddynt gael eu cyflawni gan y Cyfarwyddydau hyn,

(b) asesu i ba raddau y mae'r amcanion hynny wedi eu cyflawni, ac

(c) asesu a yw'r amcanion hynny yn parhau i fod yn briodol ac, os felly, i ba raddau y gellid eu cyflawni mewn ffordd arall.

**Dirymu**

**15.** Mae Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid (Cymru) 2002 wedi eu dirymu.

*Lynne Neagle*

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad: 19 Mawrth 2026